

**Bwrdd Iechyd Addysgu Powys  
AGIC – Archwiliad Dirybudd ar Hap o Lanweithdra**

**Cynllun Gweithredu – Mehefin 2012**

*Bydd y cynllun yn cael ei fonitro gan y Pwyllgor Atal a Rheoli Heintiau ac Amgylchedd Gofal sy'n adrodd i'r Bwrdd Cyfarwyddwyr. Bydd y cynnydd o ran y cynllun yn cael ei roi yn ffurfiol gerbron y Bwrdd Cyfarwyddwyr o fewn 6 mis. Dylid darllen y Cynllun Gweithredu hwn ar y cyd â chynllun gweithredu Archwiliad Dirybudd o Urddas a Gofal Hanfodol AGIC, cynllun gweithredu Adolygiad yr Ombwdsmon, a chynllun gweithredu Adolygiad y Cyngor Iechyd Cymuned, gan fod rhai meysydd yn gorgyffwrdd.*

Rhif	Argymhelliad	Camau gweithredu	Arweinydd	Amserlen	Cynnydd (ar 26 Mehefin 2012)
	<b>Yr Amgylchedd</b>				
<b>2.4 a 2.19</b>	<b>Wardiau Y Bannau ac Epynt</b> Edrychwyd ar yr holl gomodau, a gwelwyd eu bod yn lân. Fodd bynnag, ceir risg bosibl o halogiad gan y gwelwyd bod y comodau mewn cyflwr gwael ac mae angen cael rhai newydd yn eu lle.	Cynhelir adolygiad o'r holl gomodau sydd yn yr ysbyty, a cheir rhai eraill yn lle y rhai hynny sydd wedi eu difrodi neu sydd wedi treulio.	Uwch Nyrs De-ddwyrain Powys	Awst 2012	Mae 2 gomôd newydd wedi eu harchebu yn lle'r rhai presennol, ac mae rhaglen ar gyfer eu gosod wedi ei chychwyn.
<b>2.5</b>	<b>Ward Y Bannau</b> Canfuwyd eitemau ymolchi cymunedol ar y ward. Dylid gwaredu'r rhain gan ei bod yn bosibl iddynt gael eu halogi pe byddent yn cael eu defnyddio gan nifer o gleifion.	Bydd yr eitemau ymolchi cymunedol yn cael eu gwaredu, a sefydlir dull arall o ddarparu eitemau ymolchi.	Nyrs Ardal Arweiniol /Uwch Nyrs	Mehefin 2012	Mae'r eitemau ymolchi cymunedol wedi eu gwaredu.  Mae pecyn eitemau ymolchi'n cael ei ddatblygu, a gefnogir gan Gymdeithas Cyfeillion yr ysbyty.
<b>2.6</b>	<b>Ward Y Bannau</b> Roedd arwydd tŷ bach ar ystafell ym man aros y cleifion, ond roedd y toiled wedi ei symud oddi yno a'r ystafell yn cael ei defnyddio i gadw nifer o wahanol eitemau amhriodol. Mae angen i'r Bwrdd Iechyd ystyried defnydd priodol o'r ystafell gan fod yr arfer presennol yn annerbyniol.	Mae'r ystafell am gael ei hailddynodi a'i hailarwyddo er mwyn nodi ei defnydd fel storfa, a bydd yn cael ei chloi, fel y bo'n briodol.	Rheolwr Gwasanaetha u'r Ysbyty	Mehefin 2012	Mae'r ystafell hon wedi ei hailddynodi a'i harwyddo fel cwpwrdd domestig.

Rhif	Argymhelliad	Camau gweithredu	Arweinydd	Amserlen	Cynnydd (ar 26 Mehefin 2012)
2.7	<p><b>Ward Y Bannau</b> Mae'r ystafell amlbwrpas ar gyfer cadw eitemau budron yn ystafell a ddefnyddir ar gyfer cael gwared ar gynhyrchion gwastraff. Gwelwyd bod yr ystafell hon yn anhrefnus ac yn anniben, a bod nifer o eitemau amhriodol yn cael eu cadw ynddi, megis clustogau lleddfu briwiau pwyso. Mae'r arfer presennol yn amhriodol, a dylid symud yr eitemau oddi yno.</p>	<p>Bydd y defnydd o'r ystafell yn cael ei adolygu. Os bydd yn parhau i fod yn ystafell amlbwrpas ar gyfer cadw eitemau budron, dynodir bod eitemau eraill yn cael eu cadw yn rhywle arall. Bydd yr ystafell yn cael ei thacluso er mwyn gallu cael gafael yn rhwydd ar eitemau sydd eu hangen.</p>	<p>Nyrs Ardal Arweiniol /Uwch Nyrs</p>	<p>Mehefin 2012</p>	<p>Cadarnhawyd mai ystafell amlbwrpas ar gyfer cadw eitemau budron yw hon. Mae'r eitemau amhriodol wedi eu symud oddi yno, mae'r ystafell wedi ei thacluso ac mae llai o bethau ynddi. Yn ogystal, mae prif gyfleuster distreulio newydd wedi ei archebu a'i osod.</p>
2.8	<p><b>Ward Y Bannau</b> Gwelwyd hefyd fod offer domestig, gan gynnwys y troli domestig a glanedyddion glanhau, yn cael eu cadw yn yr ystafell amlbwrpas ar gyfer cadw eitemau budron. Gan y defnyddir yr ystafell ar gyfer cael gwared ar wastraff budr, mae'r arfer presennol yn amhriodol, a dylid cadw'r offer glanhau domestig ar wahân.</p>	<p>Bydd yr offer domestig, gan gynnwys y troli domestig a'r glanedyddion glanhau, yn cael eu symud oddi yno.</p> <p>Ailddynodir cwpwrdd arall yn storfa ddomestig er mwyn gallu storio pethau'n briodol.</p>	<p>Rheolwr Gwasanaetha u'r Ysbyty</p>	<p>Mehefin 2012</p>	<p>Mae cwpwrdd ar gyfer cadw eitemau domestig wedi ei ddynodi, ac mae wedi ei arwyddo felly. Ni chedwir eitemau megis y troli domestig a'r glanedyddion glanhau yn y cwpwrdd domestig.</p>
2.23	<p><b>Ward Epynt</b> Gwelwyd bod yr ystafell amlbwrpas ar gyfer cadw eitemau budron yn anhrefnus ac anniben, a bod nifer o eitemau amhriodol, megis clustogau lleddfu briwiau pwyso, yn cael eu cadw ynddi. Mae'r arfer presennol yn amhriodol, a dylid symud yr eitemau oddi yno.</p>	<p>Bydd y defnydd o'r ystafell yn cael ei adolygu. Os bydd yn parhau i fod yn ystafell amlbwrpas ar gyfer cadw eitemau budron, dynodir bod eitemau eraill yn cael eu cadw yn rhywle arall. Bydd yr ystafell yn cael ei thacluso er mwyn gallu cael gafael yn rhwydd ar eitemau sydd eu hangen.</p>	<p>Uwch Nyrs</p>	<p>Mehefin 2012</p>	<p>Cadarnhawyd mai ystafell amlbwrpas ar gyfer cadw eitemau budron yw hon. Mae'r eitemau amhriodol wedi eu symud oddi yno ac mae'r ystafell wedi ei thacluso. Yn ogystal, mae prif gyfleuster distreulio newydd wedi ei archebu a'i osod.</p>

Rhif	Argymhelliad	Camau gweithredu	Arweinydd	Amserlen	Cynnydd (ar 26 Mehefin 2012)
2.9 a 2.22	<b>Wardiau Y Bannau ac Epynt</b> Gwelwyd bod byrddau dros-gwely a phennau gwely ar gyfer cleifion wedi treulio, a chan na ellir glanhau pren yn effeithiol, ceir risg bosibl o halogiad. Dylid cael rhai newydd yn eu lle.	Mae'r Cyflenwad o Fyrddau Gwely a Gwelyau am gael ei adolygu, a cheir rhai newydd yn eu lle, fel y bo'n briodol.	Uwch Nyrs De-ddwyrain Powys	Awst 2012	Mae rhaglen gosod gwelyau a byrddau gwely newydd wedi ei chychwyn ond nid yw wedi ei chwblhau hyd yma.
2.20	<b>Ward Epynt</b> Gwelwyd bod clustog lleddfu briwiau pwysu wedi ei ddirodi, gan ganiatáu i hylifau, baw a bacteria dreiddio i'r defnydd. Cafwyd gwared â'r glustog hon ar adeg ein hymweliad. Dylai'r Bwrdd Iechyd sicrhau yr edrychir ar glustogau lleddfu briwiau pwysu yn rheolaidd, ac y gwaredir unrhyw glustogau sydd wedi eu difrodi a chael rhai newydd yn eu lle.	Mae system am gael ei datblygu ar gyfer archwilio offer, a bydd yn cael ei gweithredu er mwyn sicrhau yr edrychir yn rheolaidd ar yr holl offer, gan gynnwys clustogau lleddfu briwiau pwysu, ac y gwaredir hwy, pan fo angen.	Nyrs Ardal Arweiniol / Uwch Nyrs	Awst 2012	
2.21	<b>Ward Epynt</b> Gwelwyd bod cornel y wal yn yr ystafell ddomestig wedi ei difrodi. Mae angen rhoi sylw i hyn cyn iddi waethygu.	Mae'r Rheolwr Gwasanaethau'r Ysbyty yn adolygu ac yn trefnu camau unioni.	Rheolwr Gwasanaetha u'r Ysbyty	Gorffennaf 2012	
	<b>Trin a gwaredu dillad gwely a llieiniau, gwastraff ac eitemau miniog</b>				
2.10	<b>Ward Y Bannau</b> Roedd gan y ward ystafell benodol ar gyfer cadw dillad gwely a llieiniau, ond roedd yr ystafell hefyd yn cael ei defnyddio i gadw nifer o wahanol eitemau, gan gynnwys trolïau dillad gwely a llieiniau budron. Mae hyn yn annerbyniol, gan y dylid cadw dillad gwely a llieiniau budron ar wahân yn briodol ac y dylid cadw dillad gwely a llieiniau glân mewn man penodol nad oes unrhyw eitemau amhriodol ynddo.	Bydd staff y ward yn cadw dillad gwely a llieiniau glân a budr ar wahân, a byddant yn sicrhau mai dim ond dillad gwely a llieiniau glân a gedwir yn yr ystafell ar gyfer eitemau glân.	Nyrs Ardal Arweiniol / Uwch Nyrs	Mehefin 2012	Mae'r storfa Dillad Gwely a Llieiniau Glân wedi ei hadsefydlu ar gyfer cadw dim ond dillad gwely a llieiniau glân, a daethpwyd o hyd i ateb arall ar gyfer trolïau dillad gwely a llieiniau budron.

Rhif	Argymhelliad	Camau gweithredu	Arweinydd	Amserlen	Cynnydd (ar 26 Mehefin 2012)
2.11	<b>Ward Y Bannau</b> Roedd rhai o'r biniau ar y ward wedi rhydu ac maent wedi creu difrod i'r llawr. Dylid cael rhai newydd yn eu lle er mwyn arbed mwy o ddifrod.	Mae'r Rheolwr Gwasanaethau Ysbyty yn adolygu ac yn trefnu camau unioni.	Rheolwr Gwasanaetha u'r Ysbyty	Gorffennaf 2012	
2.25	<b>Ward Epynt</b> Roedd y ward yn trin ac yn cael gwared ar wastraff yn briodol ar y cyfan, ac eithrio un bin domestig yr oedd bag gwastraff clinigol wedi ei roi ynddo. Dylai'r staff sicrhau y rhoddir y bagiau gwastraff priodol yn y bin cywir.	Bydd y staff yn cael eu hatgoffa o'r angen i ddefnyddio bagiau priodol.  Ystyrir cryfhau archwiliadau amgylcheddol lleol, i gynnwys yr agwedd hon.	Rheolwr Gwasanaetha u'r Ysbyty	Gorffennaf 2012	
2.26	<b>Ward Epynt</b> Canfuwyd bod y ward yn cydymffurfio â'r safonau (gofynnol) cenedlaethol o ran trin a chael gwared ar eitemau miniog yn ddiogel. Fodd bynnag, nodwyd bod padelli eitemau miniog yn fudr. Dylai'r staff sicrhau bod y padelli eitemau miniog yn cael eu glanhau'n briodol bob tro ar ôl eu defnyddio.	Ceir gwared ar y badell eitemau miniog sydd wedi ei staenio ag iodid. Bydd y padelli eitemau miniog sydd ar y ward yn cael eu cynnwys yn y rhaglen lanhau. Bydd archwiliadau glanhau'r amgylchedd yn penderfynu a yw'r padelli'n lân ai peidio.	Nyrs Ardal Arweiniol /Uwch Nyrs	Gorffennaf 2012	Cafwyd gwared ar y padelli sydd wedi eu staenio ag iodid, ac mae pob padell eitemau miniog sydd ar y ward yn lân.
	<b>Cyfarpar a storfeydd</b>				
2.13 a 2.27	<b>Wardiau Y Bannau ac Epynt</b> Roedd rhaglen lanhau ysgrifenedig ar gael ar y ward. Gwelwyd bod yr offer yn lân a bod y teclynnau'n cael eu cadw'n ddiogel ac yn briodol yn gyffredinol. Fodd bynnag, roedd llwch ar y dyfeisiau ocsigen a sugno. Dylai'r staff sicrhau bod yr holl offer yn cael ei lanhau i safon dderbyniol.	Bydd y dyfeisiau ocsigen a sugno yn cael eu glanhau. Yn ogystal, bydd y rhaglen lanhau wythnosol yn cael ei hadolygu er mwyn sicrhau bod yr eitemau hyn yn cael eu cynnwys ynddi, a bod y staff yn ymwybodol fod angen eu cynnwys.	Nyrs Arweiniol Ardal/Uwch Nyrs	Mehefin 2012	Mae'r dyfeisiau ocsigen a sugno wedi eu glanhau. Mae'r rhaglen lanhau bellach yn cynnwys yr eitemau hyn.

Rhif	Argymhelliad	Camau gweithredu	Arweinydd	Amserlen	Cynnydd (ar 26 Mehefin 2012)
	<b>Gwybodaeth ac arferion gwaith y staff</b>				
2.16	<b>Wardiau Y Bannau ac Epynt</b> Cynhelir archwiliadau hylendid dwylo ar y wardiau, ond nid arddangosir y canlyniadau. Dylid arddangos canlyniadau'r archwiliadau a rhoi gwybod i'r staff amdanynt, er mwyn i unrhyw broblemau a nodir dderbyn sylw mewn modd amserol.	Bydd y Byrddau Trosglwyddo Gofal yn cael eu defnyddio i arddangos yr archwiliadau hyn.	Nyrs Ardal Arweiniol / Uwch Nyrs	Mehefin 2012	Mae aelod penodedig o'r staff wedi ei ddewis i gadw'r wybodaeth sydd ar y Byrddau Trosglwyddo Gofal yn gyfredol. Mae adroddiadau'r archwiliadau hylendid dwylo wedi eu harddangos yn y man hwn erbyn hyn.